

CTC 39

Ymgynghoriad ar rôl, llywodraethiant ac atebolrwydd y sector cyngorau tref a chymuned

Consultation on the role, governance and accountability of the community and town council sector

Ymateb gan: Archwilio Cymru

Response from: Audit Wales

Cyfeirnod: 4544A2024

Dyddiad cyhoeddi: Hydref 2024

Llywodraethiant ac atebolrwydd y sector cyngorau tref a chymuned

Trefniadau llywodraethu a chraffu – rôl yr Archwilydd Cyffredinol

- 1 Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru (ACC) yn darparu elfen bwysig o'r trefniadau craffu ac atebolrwydd cyffredinol sydd ar waith ar gyfer cyngorau tref a chymuned. Mae'n archwilio'r cyfrifon ac yn rhoi sicrwydd i'r cyngorau a'r cyhoedd ynglŷn â'r cyfrifon, ac mae'n adrodd ar drefniadau cyngorau i sicrhau gwerth am arian. Mae 'sicrwydd' yma yn golygu, yn y bôn, adrodd bod y cyfrifon wedi'u paratoi'n iawn a bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian. Lle nad yw hyn yn wir, bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn adrodd yn unol â hynny.
- 2 Mae cyfrifoldebau'r Archwilydd Cyffredinol mewn cysylltiad â chyfrifon cyngorau cymuned a thref wedi'u nodi'n bennaf yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004¹. Mae'r Ddeddf yn nodi bod yn rhaid i ACC:
 - archwilio a rhoi barn ar y cyfrifon;
 - ystyried a oes gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau ai peidio;
 - ystyried a oes unrhyw faterion y dylid rhoi gwybod amdanynt er budd y cyhoedd ai peidio.

Trosolwg o drefniadau archwilio

Amcanion y dull archwilio

- 3 Mae'r trefniadau archwilio sydd ar waith wedi'u cynllunio i gyflawni'r nodau canlynol:
 - cyflawni cyfrifoldebau statudol ACC;
 - bod yn gymesur â'r risg gyffredinol i'r pwrs cyhoeddus a gyflwynir gan y sector cyfan a chyrrff unigol o fewn y sector;

¹ Yn bennaf adrannau 13, 17, 22, 30 a 31 o Ddeddf 2004. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, a wnaed o dan Ddeddf 2004, hefyd yn gosod cyfrifoldebau ar yr Archwilydd Cyffredinol.

- darparu lefel resymol o sicrwydd i'r cynghorau a'r cyhoedd ynghylch defnydd cynghorau o arian cyhoeddus a'u sefyllfaoedd ariannol.

Y farn archwilio a'r sicrwydd a ddarperir

- 4 Mae'r broses archwilio wedi'i chynllunio i roi sicrwydd rhesymol ond nid sicrwydd llwyr fod y cyfrifon wedi'u paratoi'n briodol a bod trefniadau priodol ar waith i sicrhau gwerth am arian. Er mwyn sicrhau bod yr archwiliad yn gymesur, nid ydym yn cymhwyso Safonau Rhyngwladol ar Archwilio i gynghorau tref a chymuned. O'r herwydd, rydym yn rhoi sicrwydd negyddol yn hytrach na barn sicrwydd cadarnhaol.
- 5 Gyda barn sicrwydd gadarnhaol, byddem yn datgan bod y Cyfrifon yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y cyngor. Gyda barn sicrwydd negyddol neu gyfyngedig rydym yn datgan nad oes dim wedi dod i'n sylw sy'n achosi pryder i ni nac yn awgrymu nad yw'r cyfrifon wedi'u paratoi'n iawn.

Trosolwg o'r rhaglen archwilio

- 6 Mae dwy elfen i'r rhaglen archwilio:
 - rhaglen waith wedi'i chynllunio sy'n dilyn cylch tair blynedd. Mae'r trefniant hwn yn berthnasol i bob cyngor. Bydd pob cyngor yn derbyn archwiliad gweithdrefnau cyfyngedig wedi'u diffinio mewn dwy o'r tair blynedd ac archwiliad manylach yn y drydedd flwyddyn.
 - gwaith adweithiol a wneir mewn cynghorau unigol mewn unrhyw flwyddyn benodol. Gall y gwaith hwn arwain at nodi materion sylweddol yn ystod y gwaith archwilio a gynlluniwyd neu mewn ymateb i faterion a godwyd gan gwestiynau a gwrthwynebiadau etholwyr, a gohebiaeth arall a dderbyniwn o bryd i'w gilydd.

Ffioedd archwilio

- 7 Codir ein ffioedd archwilio yn unol â'n cynllun Ffioedd Blyneddol. Pe bai'r holl archwiliadau yn cael eu cwblhau heb unrhyw faterion ychwanegol yn codi, rydym yn amcangyfrif y byddai cyfanswm ffioedd ar gyfer y sector oddeutu £220,000. Ar hyn o bryd rydym yn amcangyfrif y bydd rhaglen flwyddyn gyfan yn costio tua £250,000 i £300,000 ar gyfer y sector cyfan. Mae hyn yn ystyried gwaith ychwanegol sy'n codi mewn ymateb i faterion a godir wrth archwilio.
- 8 Fodd bynnag, bydd y ffi wirioneddol a godir ar gynghorau unigol yn amrywio'n sylweddol. Mae gwerth ffioedd cynghorau unigol yn gymharol fach, fel arfer yn cyfateb i ddim mwy nag ychydig gannoedd o bunnau. Mae gwerth isel ffioedd yn golygu y bydd hyd yn oed symiau cymharol fach o waith ychwanegol yn arwain at gynnydd canran fawr yn y ffi archwilio a godir. Fodd bynnag, gall y ffioedd hyn gynyddu'n gyflym pan fo nifer o faterion neu faterion sylweddol yn cael eu harchwilio.

- 9 Mae'r broses o fonitro a mynd ar drywydd nifer fawr iawn o ffioedd bach yn creu cost weinyddol a gwaith sylweddol i Archwilio Cymru.

Y sefyllfa bresennol

- 10 Mae ein rhaglen archwilio ar gyfer y sector wedi dioddef tro anffodus oherwydd effaith hirdymor COVID19 ar ein rhaglen archwilio gyffredinol ar draws y sector cyhoeddus. Cyn cyfrifon 2020-21, cynhaliwyd archwiliad o'r sector ar ran ACC gan gwmnïau'r sector preifat. Ers hynny, mae Archwilio Cymru wedi ymgymryd â'r holl waith yn fewnol. Yn 2020, roedd cynghorau yn hwyr yn cyflwyno nifer fawr o gyfrifon i'r cyflenwyr archwilio ar y pryd. O ganlyniad, trosglwyddodd yr archwilwyr gyfanswm o 449 o archwiliadau anghyflawn i Archwilio Cymru, ac roedd llawer ohonynt heb gyflwyno cyfrifon ar gyfer 2019-20. Mewn rhai achosion, nid oedd cyfrifon wedi'u cyflwyno ar gyfer un neu fwy o'r blynyddoedd blaenorol. Gwaethygydd y sefyllfa gan gyfyngiadau COVID parhaus yn 2021 gan greu ôl-groniad sylweddol o waith yr ydym yn dal yn ceisio ei glirio yng nghyd-destun ein rhaglen waith ehangach.
- 11 Ar 30 Medi 2024, roedd dros 100 o gynghorau heb gyflwyno cyfrifon archwilio 2023-24 er bod nodiadau atgoffa wedi'u cyflwyno i bob cyngor a oedd ar ei hôl hi. Roedd y ffigur cyfatebol ar gyfer archwiliadau 2022-23 ar 30 Medi 2023 yn fwy na 200. Ar 30 Medi 2024, roedd 22 o gynghorau heb ddarparu eu cyfrifon ar gyfer 2022-23 i'w harchwilio. Ar hyn o bryd, nid ydym wedi derbyn cyfrifon ar gyfer archwilio ar gyfer blynyddoedd cynharach gan nifer fach o gynghorau (2021-22 12 Cyngor, 2020-21 16 Cyngor, 2019-20 a chynharach 6 Chyngor).
- 12 O'r cyfrifon hynny a dderbyniom, rydym wedi cwblhau'r archwiliadau fel a ganlyn:
- 2019-20 ac yn gynharach 87%
 - 2020-21 95%
 - 2021-22 91%
 - 2022-23 75%
 - 2023-24 21%
- Mae gwaith archwilio wedi'i gwblhau ar lawer o'r cynghorau sy'n weddill ac mae'r cyfrifon yn aros am ardystiad (2020-21 - 3%, 2021-22 - 5%, 2022-23 -16%, 2023-24 - 53%).
- 13 Cyn belled ag y gallwn², erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon, ein nod yw cwblhau'r archwiliadau o gyfrifon a gawsom erbyn 30 Medi 2024.

² Mewn rhai achosion, mae archwiliadau yn parhau i fod ar agor oherwydd materion archwilio parhaus.

Cyfraniad yr archwiliad i atebolrwydd

- 14 Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn rhoi sicrwydd i'r cyhoedd ac i'r cynghorau eu hunain drwy ei adroddiad archwilio blynyddol a'i dystysgrif ar y cyfrifon. Fodd bynnag, gall hyn gael ei beryglu rhywfaint oherwydd nad yw'r gyfraith mewn cysylltiad â chyhoeddi tystysgrifau archwilio yn gwbl syml. Mae Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned gyhoeddi datganiadau cyfrifon archwiliedig yn electronig, ond nid yw'n gwneud darpariaeth benodol ar gyfer cyhoeddi adroddiadau a thystysgrifau archwilio. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau cymuned sy'n 'gyrff perthnasol mwy' gyhoeddi, gan gynnwys ar eu gwefan, yr holl adroddiadau a thystysgrifau archwilio a gyhoeddir gan yr Archwilydd Cyffredinol. Yn achos cynghorau cymuned sy'n "gyrff perthnasol llai" mae'r Rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau gyhoeddi pob adroddiad a thystysgrif o'r fath, ond nid yw'r Rheoliadau'n cyfeirio at gyhoeddi'r rhain ar wefan.
- 15 Er ein bod o'r farn y gellid dehongli'r gyfraith mewn ffordd nad yw'n ei gwneud yn ofynnol i bob cyngor cymuned gyhoeddi adroddiadau a thystysgrifau archwilio ar eu gwefannau, credwn fod dehongliad o'r fath yn groes i synnwyr cyffredin a thryloywder ac atebolrwydd priodol. Fodd bynnag, mae ein gwaith archwilio yn nodi nad yw llawer o gynghorau yn cyhoeddi'r dystysgrif archwilio sydd ynghlwm wrth y cyfrifon blynyddol fel mater o drefn.
- 16 Yn ogystal â rhoi sicrwydd drwy'r adroddiad archwilio blynyddol, mae gan yr Archwilydd Cyffredinol bwerau i gyhoeddi adroddiadau er budd y cyhoedd. Mae hyn yn rhoi amrywiaeth o opsiynau i'r Archwilydd Cyffredinol fynd i'r afael â materion yn y modd mwyaf priodol.
- 17 Mae ein hadroddiad ar faterion mewn cynghorau wedi ennyn rhywfaint o ddiddordeb ar lefel leol ar draws cynghorau eraill. Rydym yn derbyn gohebiaeth yn rheolaidd yn codi pryderon am gynghorau unigol neu'n gofyn cwestiynau ac yn codi gwrthwynebiadau ynghylch y cyfrifon. Felly, mae ein hadroddiad yn cael effaith gadarnhaol ar atebolrwydd ar lefel leol.
- 18 Mewn llawer o achosion o'r fath, nid oes gan y materion a godir fawr ddim sylwedd neu ddim sylwedd o gwbl. Efallai bod gohebwyr wedi camddeall yr hyn y mae'r cyngor wedi'i wneud.
- 19 Fodd bynnag, rydym yn ystyried pob achos yn ôl ei rinweddau oherwydd mewn cyfran resymol o achosion, mae'r gohebydd yn nodi rhai materion pwysig. Er enghraifft, mae rhai adroddiadau Archwilydd Cyffredinol er budd y cyhoedd wedi dod yn sgil gohebiaeth a dderbyniwyd yn codi pryderon ynghylch trefniadau caffael, neu wrthwynebiad i'r cyfrifon³.
- 20 Mae rhywfaint o ohebiaeth o bosibl yn annifyr ac yn codi oherwydd methiannau mewn perthynas rhwng cynghorwyr neu rhwng y cyngor ac aelodau unigol o'r cyhoedd. Mewn rhai achosion, mae'r materion hyn yn dangos perthnasoedd camweithredol o fewn y Cyngor ei hun⁴.

³ Gweler fel enghraifft [Cyngor Cymuned Llanferres – Trefniadau caffael | Archwilio Cymru](#) a [Chyngor Cymuned Abertyleri a Llanhilledd | Archwilio Cymru](#)

⁴ Gweler fel enghraifft [Cyngor Cymuned Sili a Larnog | Archwilio Cymru](#)

A yw'r sector yn addas i'r diben mewn tirwedd llywodraeth leol sy'n esblygu

- 21 Ni allwn roi ymateb pendant i'r cwestiwn a yw'r sector yn addas i'r diben ai peidio mewn tirwedd llywodraeth leol sy'n esblygu.
- 22 Fodd bynnag, gallwn gynnig ein mewnwelediadau o ganlyniadau ein gwaith archwilio.

Trosolwg o'r sector

- 23 Ar hyn o bryd mae tua 735 o gyrff yn dod o fewn y drefn yr ydym yn cyfeirio ati. Mae hyn yn cynnwys cynghorau cymuned a thref a nifer fach o'u cyd-bwyllgorau – pwyllgorau neu fyrddau claddu ar y cyd yw'r rhain. Bydd nifer y cynghorau yn newid dros y ddwy neu dair blynedd nesaf wrth i awdurdodau unedol gwblhau eu hadolygiadau o'u cymunedau.
- 24 Nid yw'r sector yn unffurf, ac mae cynghorau'n amrywio'n sylweddol o ran adnoddau.
- 25 Mae'r cynghorau mwyaf yn gwario dros £1 miliwn a'r lleiaf dim ond ychydig filoedd o bunnau'r flwyddyn. Mae gan rai o'r cynghorau lleiaf sylfaen dreth fach gyda nifer cymharol fach o aelwydydd o bosibl yn cyfyngu'r swm y gallant ei godi trwy eu praesept.
- 26 Mae **Arddangosyn 1** yn dangos dadansoddiad o nifer y cynghorau yn ôl maint – wedi'i fesur yn ôl incwm a gwariant

Arddangosyn 1: maint perthnasol cynghorau

Incwm / Gwariant	Nifer y cynghorau
Llai na £10,000	209
£10,001 - £20,000	142
£20,001 - £50,000	155
£50,001 - £100,000	81
£100,001 - £200,000	67

- 27 Dim ond un swyddog gweinyddol sydd gan y mwyafrif o gynghorau - y clerc - sy'n cyflawni holl swyddogaethau gweinyddol ac ariannol y Cyngor. Mae llawer ohonynt yn rhan-amser a gellir eu cyflogi am gyn lleied â 10 awr bob mis.
- 28 Gall cynghorau mwy sydd â sylfaen dreth fwy ac incwm o ffynonellau heblaw'r praesept gyflogi staff gweinyddol ychwanegol, e.e. dirprwy glerc neu swyddog cyllid. Mae'r cynghorau mwy hyn yn tueddu i gyflogi staff yn llawn amser neu'n agos at lawn amser.
- 29 Nid oes unrhyw ofnion ar gyfer cymhwyso clerod ac eithrio pan fo cyngor yn dymuno arfer y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (PCC). Un o'r amodau cymhwyso sy'n caniatáu i gyngor ddatgan ei fod yn gymwys ar gyfer PCC yw bod yn rhaid i'r clerc feddu ar gymhwyster perthnasol. Ar hyn o bryd, dim ond lleiafrif o glerod sydd â chymwysterau perthnasol.
- 30 Yn gyffredinol, mae hyn yn golygu bod diffyg capasiti mewn llawer o gynghorau i fanteisio ar gyfleoedd newydd

Canlyniadau archwilio

- 31 Mae rhywfaint o gamddealltwriaeth yn y sector ynglŷn â beth mae barn amodol yn ei olygu. Mae'n golygu ein bod wedi nodi un neu fwy o ddiffygion yr ydym yn ystyried eu bod yn cael effaith perthnasol (sylweddol) ar ein casgliad archwilio. Rydym yn cyhoeddi barn archwilio amodol yn yr amgylchiadau canlynol.

Datganiadau cyfrifyddu

- 32 Rydym yn cyhoeddi barn amodol mewn cysylltiad â'r Datganiadau Cyfrifyddu (y cyfrifon) pan fyddwn yn dod i'r casgliad:
- nad yw'r cyfrifon wedi'u paratoi yn unol ag arfer priodol ac mae hyn yn cael effaith berthnasol ar y ffigurau a adroddir;
 - bod y cyfrifon yn cynnwys gwallau na ellir eu datrys;
 - nad yw'r Cyngor wedi darparu digon o wybodaeth er mwyn i ni ddod i gasgliad.

Datganiad Llywodraethu Blynnyddol

- 33 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol yn cael ei baratoi gan y cyngor ac mae'n amlinellu o reolaethau llywodraethu'r cyngor. Rydym yn cyhoeddi barn amodol mewn cysylltiad â'r Datganiad Llywodraethu Blynnyddol pan fyddwn yn dod i'r casgliad:
- bod yr honiadau a wnaed yn y Datganiad Llywodraethu Blynnyddol yn gwrth-ddweud y dystiolaeth sydd ar gael yn ystod yr archwiliad;

- nad yw'r Cyngor wedi darparu digon o wybodaeth er mwyn i ni ddod i gasgliad.

Gwerth am arian – darbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd

- 34 Rydym yn cyhoeddi barn amodol mewn cysylltiad â threfniadau'r Cyngor i sicrhau gwerth am arian pan fyddwn yn dod i'r casgliad:
- bod tystiolaeth archwilio yn dangos nad oes gan y cyngor drefniadau priodol ar waith;
 - nad yw'r Cyngor wedi darparu digon o wybodaeth er mwyn i ni ddod i gasgliad.

Barn archwilio

- 35 At ei gilydd, mae tua 50% o gynghorau yn gyffredinol yn derbyn barn archwilio amodol. Pan fyddwn yn cynnal archwiliad manylach (yr archwiliad 'llawn'), rydym yn nodi mwy o faterion. Yn gyffredinol, mae 58% o'n harchwiliadau 'llawn' tair blynedd yn derbyn barn archwilio amodol.
- 36 Mae **Arddangosyn 2** yn crynhoi cyfradd barnau archwilio amodol yn ôl maint y cyngor. Mae'r rhain yn cynnwys cynghorau lle mae'r gwaith archwilio wedi'i gwblhau ond i'w adolygu cyn ardystio. Mae'r farn ddrafft arfaethedig yn cael ei hadolygu cyn ei rhoi i gynghorau.

Arddangosyn 2: barnau archwilio amodol 2022-23

Incwm/gwariant	Nifer y cyngorau	Archwiliadau wedi'u cwblhau	Barnau Amodol	Canran o archwiliadau wedi eu cwblhau â Barn Amodol	Archwiliadau llawn wedi eu cwblhau	Barnau Amodol Archwiliadau llawn	Canran o archwiliadau llawn â Barn Amodol
Llai na £10,000	209	191	104	54%	62	37	60%
£10,001 - £20,000	142	125	72	58%	37	23	62%
£20,001 - £50,000	155	146	58	40%	48	21	44%
£50,001 - £100,000	81	77	35	45%	26	16	62%
£100,001 - £200,000	67	63	36	57%	19	15	79%
Dros £200,000	83	79	32	41%	24	13	54%
Cyfanswm	737	681	337	49%	216	125	58%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru o farn archwilio 2022-23

Materion archwilio cyffredin

- 37

Mae llawer o gynghorau yn methu a chael y pethau sylfaenol yn iawn. Mae tua 30% o gynghorau bob blwyddyn yn darparu cyfrifon nad ydynt yn rhifyddol gywir. Yn bennaf mae hyn oherwydd camgymeriadau talgrynnu ond mae nifer sylweddol yn anghywir am resymau eraill.
- 38

Mae **Arddangosyn 3** yn crynhoi achosion y gwallau rhifydddeg hyn. Mae tua 60% o'r camgymeriadau hyn o ganlyniad i gamgymeriad talgrynnu. Mae 8% i 15% pellach oherwydd gwallau teipograffyddol syml. Byddai'r materion hyn yn syml i'w datrys drwy wiriad rhifydddeg syml gan y cyngor wrth gymeradwyo'r cyfrifon.

Arddangosyn 3: cyfrifon a gyflwynwyd gyda chamgymeriadau rhifydddeg

Bob blwyddyn mae tua 30% o gynghorau yn cyflwyno cyfrifon nad ydynt yn rhifyddol gywir.

	2022-23	2023-24
Cyfrifon wedi'u prosesu	703	600
Camgymeriadau talgrynnu yn unig	126	105
Camgymeriadau teipograffyddol yn unig	29	14
Camgymeriadau rhifydddeg eraill	35	33
Cyfuniadau o'r uchod	29	24
Cyfanswm nifer y cyfrifon gyda gwallau rhifydddeg	219	176
% o gynghorau gyda gwallau	31%	29%

Ffynhonnell: Dadansoddiad Archwilio Cymru

- 39

Mewn llawer o achosion, gallai cynghorau osgoi barn archwilio amodol drwy wneud newidiadau syml i'w trefniadau. Byddai newidiadau syml o'r fath yn cynnwys:
 - sicrhau bod y cyfrifon yn cael eu cyflwyno i gyfarfod ym mis Mehefin i'w cymeradwyo. Gallai hyn gynnwys trefnu cyfarfod arbennig tuag at ddiwedd y mis os yw'r cyngor fel arfer yn cyfarfod ar ddechrau'r mis;

- gwirio bod yr holl wybodaeth sy'n ofynnol ar gyfer yr archwiliad wedi'i chynnwys yn y pecyn a gyflwynir i'w archwilio;
 - mynd i'r afael â materion a godwyd mewn adroddiadau archwilio blaenorol.
- 40 Ers 2015-16, rydym wedi bod yn hysbysu cynghorau cyn blwyddyn ariannol y meysydd y byddwn yn canolbwyntio arnynt ar gyfer ein hadolygiad o'r datganiad llywodraethu. Mae meysydd o'r fath yn cynnwys contractau cyflogaeth i glercod a gweithrediad PAYE, a mabwysiadu a chydymffurfio â rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol. Nid yw llawer o gynghorau yn mynd i'r afael â'r materion hyn, felly nid ydynt yn gallu dangos cydymffurfiaeth pan ofynnir iddynt wneud hynny yn ystod yr archwiliad.
- 41 Nid yw llawer o gynghorau yn cydymffurfio â gofynion statudol/rheoleiddiol eraill. Gall hyn fod oherwydd nad ydynt yn talu lwfansau unrhyw aelodau, neu eu bod yn diystyru'r gofyniad i roi gwybod i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (PACGA) am hyn.
- 42 Yn aml nid yw cynghorwyr yn craffu ar eu clerc i bob pwrpas, ac mewn rhai achosion, gall clercod gamddefnyddio eu safleoedd. Mewn llawer o achosion, mae aelodau'n trosglwyddo'r holl gyfrifoldeb i'w clerc.
- 43 Gall hyn achosi colledion sylweddol i gynghorau unigol, fel y nodir mewn amryw o adroddiadau Archwilydd Cyffredinol er budd y cyhoedd⁵.
- 44 Mewn rhai cynghorau, mae aelodau'n rhoi pwysau di-alw-amdano ar y clerc ac yn cymryd cyfrifoldeb drostynt eu hunain am reoli gweithgareddau'r cyngor⁶.
- 45 Mewn cynghorau eraill, gall diffyg gwaith craffu gan gynghorwyr arwain at fethiant ym maes adrodd ariannol. Mae yna gnewyllyn o 15-25 o gynghorau sydd heb baratoi cyfrifon i'w cymeradwyo gan y cyngor am 4-5 mlynedd.
- 46 Mae cynghorau'n mabwysiadu rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol sydd â'r bwriad o reoli sut maent yn cynnal busnes, ac mae'r rhain yn cynnwys rheolau ar gyfer materion ariannol. Fodd bynnag, mae cynghorau'n aml yn diystyru eu rheolau sefydlog a'u rheoliadau ariannol eu hunain⁷.
- 47 Yn aml, nid yw cynghorau'n darparu gwybodaeth y gofynnir amdani i'w harchwilio. Bob blwyddyn rydym yn anfon hysbysiad archwilio i bob cyngor. Mae hwn yn nodi'r wybodaeth ategol sydd ei hangen arnom ar gyfer yr archwiliad. Yn syml, mae rhai cynghorau'n anfon yr un wybodaeth flwyddyn ar ôl blwyddyn heb gyfeirio at yr hysbysiad archwilio. Mae eraill yn anfon y ffurflen flynyddol yn unig gyda neges eglurhaol yn dweud y dylem gysylltu â nhw os oes angen unrhyw beth ychwanegol arnom.
- 48 Er ein bod yn ceisio cael yr wybodaeth sydd ar goll, mewn rhai achosion nid yw wedi cael ei pharatoi na'i chadw gan y cyngor. Mewn achosion eraill, mae

⁵ Gweler er enghraifft [Methiant rheolaeth ariannol a thwyll – Cyngor Tref Maesteg | Archwilio Cymru](#)

[Cyngor Cymuned Ynysawdre | Archwilio Cymru](#)

[Cyngor Cymuned Canol Llangynwyd | Archwilio Cymru](#)

[Cyngor Cymuned Abertyleri a Llanhilledd | Archwilio Cymru](#)

⁶ Gweler er enghraifft [Cyngor Cymuned Sant Harmon | Archwilio Cymru](#)

⁷ Gweler er enghraifft [Cyngor Cymuned y Mwmbwls - Gwariant ar ymgynghorwyr cynllunio | Archwilio Cymru](#) a [Chyngor Cymuned Llanferres – Trefniadau caffael | Archwilio Cymru](#)

gwybodaeth wedi'i dal yn ôl heb reswm da⁸. Mewn achosion o'r fath mae'n rhaid i ni dreulio amser yn mynd ar drywydd a pherswadio clerod a'u cynghorau i ddarparu'r wybodaeth. Yn gyffredinol, rhaid talu am yr amser a dreulir gan staff Archwilio Cymru, ac i fodloni'r rheolau mewn deddfwriaeth ar ffioedd, mae hyn yn disgyn ar y ffi archwilio ar gyfer y cyngor, oni bai ei fod yn cael cymhorthdal drwy gyflenwad o Gronfa Gyfunol Cymru, nad yw'n ymddangos yn briodol. Weithiau mae rhwystr yn arwain at gynnydd mawr iawn yn y ffi archwilio.

- 49 Mae cynnydd mewn ffioedd yn aml yn arwain cynghorau i wneud cwynion, ac mae ymdrin â nifer cynyddol o gwynion gan gynghorau cymuned ynghylch maint y ffioedd archwilio ei hun yn dod yn weithgaredd llafurus a chostus.

Capasiti technoleg ddigidol a thechnoleg newydd i wella prosesau gwneud penderfyniadau, darparu gwasanaethau ac annog cyfranogiad mewn prosesau democrataidd lleol

- 50 Mae safon y gwaith o fabwysiadu TG ar draws y sector yn amrywiol. Mewn rhai achosion, mae'r cyngor yn dal i gadw llyfrau arian a chofnodion mewn llawysgrif. Nid yw nifer fawr o gynghorau yn cyhoeddi ar eu gwefannau yr holl wybodaeth y mae'n ofynnol iddynt ei chyhoeddi'n electronig.
- 51 Mae llawer o glercod yn defnyddio eu cyfeiriadau e-bost personol ar gyfer busnes y cyngor. Mae hyn yn aml yn arwain at golli gwybodaeth pan fydd staff yn newid. Mae hyn hefyd yn cynyddu'r risg o golli arian cyhoeddus.
- 52 Mewn un achos, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi adrodd er budd y cyhoedd i dynnu sylw at ddiffygion yng ngwefan y Cyngor a'i anhygyrchedd⁹. Amlygodd yr adroddiad hefyd sut roedd trydydd parti yn gallu twyllo'r Cyngor yn hawdd oherwydd rheolaethau mewnol llac.
- 53 Er mwyn manteisio ar ddatblygiadau mewn technoleg ddigidol a gwybodaeth, bydd angen i'r sector cyfan fynd i'r afael â materion capasiti a gallu.

Sut y mae pwerau a chyfrifoldebau newydd ar gyfer yr haen hon o lywodraeth yn cael eu defnyddio i gefnogi cymunedau

- 54 Mae gennym wybodaeth gyfyngedig mewn cysylltiad â phwerau newydd a roddwyd i gynghorau tref a chymuned.
- 55 Nid ydym eto wedi archwilio a yw cynghorau wedi datgan eu bod yn gymwys i gael y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (PCC) a pha weithgareddau, os o gwbl, y maent yn eu cyflawni gan ddefnyddio PCC. Ein dealltwriaeth ni yw mai cymharol ychydig o gynghorau sy'n gallu datgan eu bod yn gymwys i dderbyn PCC ar hyn o bryd.
- 56 Yn anecdotaidd, rydym yn deall bod PCC wedi'i gynllunio i gael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau megis:

⁸ Gweler er enghraifft [Cyngor Cymuned Llanpumsaint | Archwilio Cymru](#)

⁹ Gweler [Methiannau mewn rheolaeth ariannol a threfniadau llywodraethu a cholledion wedi'u dioddef – Cyngor Cymuned Harlech | Archwilio Cymru](#)

- cefnogi siop bentref leol
- prynu a rhedeg swyddfa bost leol
- rhedeg llyfrgell leol y mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu ei chau
- darparu gwasanaethau bysiau lleol ar lwybrau nad ydynt wedi'u cynnwys gan gwmnïau bysiau

57 Y meysydd allweddol y bydd angen i gynghorau ganolbwyntio arnynt wrth gymhwyso PCC yw sicrhau bod y canlynol ar waith:

- cynllun busnes llawn a digonol sy'n tynnu sylw at risgiau, costau a buddion y gweithgaredd arfaethedig;
- system effeithiol o reolaeth fewnol a monitro ariannol o weithgareddau, yn enwedig pan fo sefydliadau trydydd parti yn cymryd rhan.

58 Rydym yn bwriadu adolygu'r maes hwn fel rhan o archwiliadau yn y dyfodol.